Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG

Heddlu Police
DYFED-POWYS
Diogelu ein cymunedau, gyda'n gilydd Safeguarding our communities, together

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU

# DYFED-POWYS

# A PHRIF GWNSTABL

## Adroddiad Blynyddol
## Y Cyd-bwyllgor Archwilio
## 2023/24



MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG

# Rhagair y Cadeirydd

Fel cadeirydd, cyflwynaf i chi fy ail adroddiad blynyddol ar waith Cyd-bwyllgor Archwilio Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl Dyfed-Powys. Diben y Cyd-bwyllgor Archwilio yw darparu sicrwydd a chyngor annibynnol ar brosesau llywodraethu. Er enghraifft, mae'n ystyried y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ac ar adegau mae'n herio'r prosesau sydd ar waith i roi sicrwydd eu bod yn addas i'r diben.

Yn dilyn ymgyrch recriwtio ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf a dechrau 2023/24 rydym wedi bod yn ffodus i benodi dau aelod newydd i'r pwyllgor. Mae David Macgregor yn dod â chyfoeth o brofiad o'r sector cyhoeddus a Julie James ag ystod eang o sgiliau a phrofiad o'r sector preifat. Diolch i'r ddau am gymryd yr amser i wneud cais i ddod yn aelodau. Diolchaf hefyd i Farhan Shakoor a Brian Jones am eu cefnogaeth barhaus fel aelodau o'r pwyllgor a gwerthfawrogaf eich holl gyfraniadau i'r cyfarfodydd.

O safbwynt ariannol roedd 2023/24 yn flwyddyn heriol oherwydd gofynnwyd i'r pwyllgor gymeradwyo'r Datganiadau Cyfrifon ar gyfer 2021/22 a 2022/23. Roedd proses 2021/22 yn un hirfaith iawn a cheisiodd y pwyllgor ddeall y rhesymau dros yr oedi a chyfarfu ag Archwilio Cymru cyn cymeradwyo cyfrifon 2022/23 i sicrhau bod gwersi wedi'u dysgu mewn perthynas â pharatoi'r adroddiad cyfrifon ac roedd yn foddhad gwybod eu bod wedi gwneud hynny.

Mae'r gwaith a wneir gan y Cyd-bwyllgor Archwilio yn parhau i fod yn helaeth a gwnaed penderfyniad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, er mwyn caniatáu i'r pwyllgor ymgymryd â'i waith gyda diwydrwydd dyladwy, bod angen ymestyn nifer y cyfarfodydd y flwyddyn i bump. Bydd hyn yn caniatáu i'r pwyllgor gael digon o amser mewn cyfarfodydd i gyflawni ein rôl yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae eleni wedi bod yn un heriol eto mewn perthynas â risgiau ariannol i'r sefydliadau gyda chyllid yn cael ei dorri mewn meysydd allweddol megis Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (SCCHau) a'r rhaglen ysgolion, ond mae'n galonogol gweld bod y cynlluniau ariannol lefel uchel yn gallu ymdopi â'r materion hyn i raddau helaeth oherwydd y gwaith sylweddol sy'n mynd i mewn i baratoi'r cynllun ariannol tymor canolig. Hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch i swyddogion Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl ynghyd ag archwilwyr mewnol TIAA a staff Archwilio Cymru sydd wedi cefnogi'r pwyllgor.

Kate Curran,
Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio.

# Y Cyd-bwyllgor Archwilio

Pwrpas y Cyd-bwyllgor Archwilio yw rhoi sicrwydd annibynnol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) a'r Prif Gwnstabl (PG) ar ddigonolrwydd y fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol, ac adroddiadau ariannol, a thrwy hynny helpu i sicrhau bod trefniadau effeithlon ac effeithiol ar waith.

Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio wedi'i sefydlu yn unol â Chod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref, a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ac yn unol â chanllawiau Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

Mae gan aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio ddealltwriaeth o'r materion ariannol, risg a rheolaeth, a llywodraethu corfforaethol sy'n wynebu'r CHTh a'r PG. Mae ganddynt hefyd y gallu i herio, cwestiynu, a cheisio eglurhad gan y CHTh a'r PG pan fo angen.

Roedd aelodaeth y Cyd-bwyllgor Archwilio yn ystod 2023/24 fel a ganlyn:

| Aelod | Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd i'w mynychu | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | % y cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| Kate Curran (Cadeirydd) | 4 | 3 | 75% |
| Farhan Shakoor | 4 | 4 | 100% |
| Brian Jones | 4 | 3 | 75% |
| David MacGregor | 4 | 3 | 75% |
| Julie James | 1 | 1 | 100% |

Mae pob aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio wedi cael ei fetio ac wedi llenwi ffurflen datganiad o fuddiant.

Mae CHTh a'r PG, Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyllid y CHTh a Chyfarwyddwr Cyllid y PG yn mynychu cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Archwilio hefyd. Mae swyddogion eraill yn mynychu i ddarparu gwybodaeth am archwiliadau, rhaglenni gwaith, neu unrhyw faterion eraill yn ôl yr angen.

Yn ystod dau ymgyrch recriwtio (cychwynnodd un tua diwedd y flwyddyn ariannol flaenorol) penodwyd dau aelod newydd i'r pwyllgor. Mynychodd David Macgregor ei gyfarfod cyntaf ym mis Gorffennaf 2023 a bu Julie James yn ei chyfarfod cyntaf ym mis Mawrth 2024. Mae'r pwyllgor bellach yn llawn, gan sicrhau gwytnwch i alluogi adolygiad a her briodol ym mhob cyfarfod.

Mae aelodau'r pwyllgor hefyd yn mynychu cyfarfodydd llywodraethu mewnol yr heddlu i ddarparu haen ychwanegol o sicrwydd. Y cyfarfodydd hynny yw:

- Grŵp Llywodraethu Archwilio
- Grŵp Llywodraethu Corfforaethol
- Bwrdd Pobl, Diwylliant a Moeseg
- Grŵp Ystadau Strategol
- Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu
- Bwrdd Dysgu'r Gwersi
- Grŵp Strategol TGCh

- Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth


# Cyfarfodydd

Mae'r cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn i gyd wedi'u cynnal yn rhithwir trwy Microsoft Teams. Yn ogystal â chyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Archwilio ffurfiol, mae'r aelodau wedi mynychu seminarau ychwanegol fel y nodir isod.

Gwahoddwyd aelodau i Seminar Cyllid Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ym mis Tachwedd 2023 a roddodd drosolwg i randdeiliaid o'r heriau gweithredol ac ariannol sy'n wynebu'r gwasanaeth. Rhoddodd hyn gyd-destun i'r rhaglen o waith llywodraethu y mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn ei wneud ac fe'i hystyriwyd yn fuddiol i bawb dan sylw.

Cafodd yr aelodau fewnbwn hefyd yn y Seminar Cyllid gan grŵp Link, ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys ar y sefyllfa economaidd bresennol, amodau'r farchnad ac eglurwyd yr elfennau allweddol yr oedd angen eu hystyried ar gyfer y strategaethau ariannol perthnasol. Rhoddwyd diweddariad hefyd gan dîm Adolygiad yr Heddlu mewn perthynas â sut mae'r heddlu yn ceisio ail-lunio a diwygio i ateb yr heriau ariannol presennol ac yn y dyfodol, ac ar yr un pryd hefyd ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gymunedau Dyfed-Powys.

Cynhaliwyd seminar Datganiad Cyfrifon ym mis Chwefror 2024 rhwng yr aelodau, y Prif Swyddog Cyllid, y Cyfarwyddwr Cyllid ac arweinwyr cyllid o fewn yr heddlu i ystyried y lefel helaeth o fanylion yn y Datganiad Cyfrifon drafft. Ystyriwyd bod yr ymarfer hwn yn ddefnyddiol iawn o ran adolygu'r cyfrifon a dogfennau cysylltiedig a chafwyd trafodaethau gwerthfawr iawn. Cafodd y pwyllgor fewnbwn hefyd ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a diweddariad gan Archwilio Cymru.



# Rhaglen waith ar gyfer 2023/2024

Cynhaliodd y Cyd-bwyllgor Archwilio bedwar cyfarfod ffurfiol yn ystod 2023/24. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, cafodd y pwyllgor adroddiadau, argymhellion, a sylwadau gan archwilwyr mewnol TIAA, Archwilio Cymru a diweddariadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS). Cafodd y pwyllgor hefyd gyflwyniadau gan swyddogion SCHTh a'r heddlu ar feysydd busnes allweddol er mwyn iddynt lunio barn annibynnol a rhoi sicrwydd i CHTh a'r PG mewn perthynas â'r rheolaethau ariannol a llywodraethu o fewn y Gorfforaeth Undyn.
Roedd y rhaglen waith yn cynnwys y canlynol:

**Rheoli risg.**Rhoddodd y Cyd-bwyllgor Archwilio sylw arbennig i gofrestrau risg SCHTh a'r heddlu. Trwy drafodaethau yn y cyfarfodydd cynnar yn 2023/24, newidiwyd fformat yr adrodd yn dilyn adborth gan aelodau. Heriodd y Cyd-bwyllgor Archwilio feysydd ar y gofrestr risg i sicrhau bod y risgiau yn y gofrestr yn ddigon manwl a chlir.

**Rheoli Gwybodaeth** Mewn blynyddoedd blaenorol mae'r Pwyllgor wedi ystyried adroddiad ar reoli gwybodaeth yn flynyddol, fodd bynnag, oherwydd materion sylweddol mewn perthynas ag ôl-groniadau wrth ymdrin â cheisiadau rhyddid gwybodaeth a cheisiadau am fynediad at ddata gan y testun, cyflwynwyd adroddiad i bob cyfarfod yn ystod y flwyddyn. Roedd yr heddlu wedi cyfeirio eu hunain at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth oherwydd y materion. Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn monitro cynnydd yn agos gan ychwanegu lefel ychwanegol o adolygu a her.


**Llywodraethu** Cafodd y Cyd-bwyllgor Archwilio ddiweddariadau ar gamau gweithredu gan y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a'r Grŵp Llywodraethu Archwilio. Roedd hyn yn galluogi'r aelodau i ddilyn materion amrywiol drwy'r strwythur llywodraethu cyn iddynt eu hystyried yn derfynol. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2024 bu'r pwyllgor yn ystyried adroddiad diweddaru gan y Grŵp Llywodraethu Archwilio a mynegodd bryderon ynghylch nifer yr argymhellion a oedd ar agor am chwe mis neu fwy. Gofynnodd y pwyllgor am wybodaeth ynghylch pam fod oedi o'r fath a dywedwyd wrthynt yng nghyfarfod mis Mawrth fod traciwr newydd yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod yr argymhellion yn cael sylw mewn modd mwy amserol. Gofynnodd y pwyllgor hefyd i ystyriaeth gael ei rhoi i'r argymhellion hynny sydd heb eu bodloni a lle bo'n briodol y dylid eu cynnwys ar y gofrestr risg. Ymgymerwyd â'r gwaith hwn a chynhwyswyd yr argymhellion priodol ar y gofrestr.

**Adroddiadau Ariannol -** Ystyriodd y pwyllgor ddwy set o Ddatganiadau Cyfrifon yn ystod y flwyddyn a'u cymeradwyo. Ym mis Gorffennaf 2023 cymeradwyodd y pwyllgor y cyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022 ac ym mis Mawrth 2024 cymeradwywyd cyfrifon 2022/23. Yn ogystal, rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am faterion yn ymwneud â pharatoi'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2023/24. Cymerodd yr aelodau ddiddordeb mawr yn yr adborth mewn perthynas â pharatoi cyfrifon 2021/2022 a gofyn i swyddogion ddangos bod gwersi wedi'u dysgu i wella'r gwaith o baratoi cyfrifon yn y dyfodol. Yn ogystal, bu'r pwyllgor yn ystyried y cynllun ariannol tymor canolig, strategaeth rheoli'r trysorlys, polisi cronfeydd wrth gefn a'r strategaeth gyfalaf.

**Archwiliad Mewnol** Cafodd y Cyd-bwyllgor Archwilio adroddiadau ar y gwaith a wnaed gan archwilwyr mewnol TIAA. Cafodd 22 o adroddiadau archwilio mewnol penodol eu hystyried gan y pwyllgor yn ystod 2023/24. Roedd 13 yn adolygiadau sicrwydd mewnol mewn perthynas â Dyfed-Powys ac yn cynnwys pynciau rheoli adnoddau dynol, adfer ar ôl trychineb TGCh, parhad busnes ac ystadau. Roedd naw adolygiad pellach yn adolygiadau o waith cydweithredol sy'n cael ei wneud rhwng holl Heddluoedd Cymru ac yn cynnwys pynciau rheoli fflyd, cyflogres, dyledwyr a chredydwyr. Fel rhan o'u rôl roedd yr aelodau'n gallu herio'r wybodaeth yn yr adroddiadau a cheisio sicrwydd lle'r oedd materion wedi'u nodi y byddai'r gwaith adfer yn cael ei wneud i ysgogi gwelliannau. Ar adegau pan oedd materion difrifol penodol wedi'u nodi, gofynnodd y pwyllgor i adroddiad diweddaru gael eu cyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol i ddangos unrhyw gynnydd sydd wedi'i wneud. Cymerodd aelodau'r pwyllgor ddiddordeb hefyd yng nghwmpas yr adolygiadau a gofynnwyd am ganolbwyntio mwy ar gwmpas cychwynnol adolygiadau yn y dyfodol i sicrhau bod canlyniadau yn ychwanegu gwerth ac o fudd i'r sefydliad. Yn ystod y flwyddyn cafodd 10 adolygiad sicrwydd sylweddol, cafodd 11 adolygiad sicrwydd rhesymol ac un adolygiad sicrwydd cyfyngedig. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd tri adolygiad yn weddill a bydd y rhain yn cael eu hystyried yn ystod y cylch cyfarfodydd nesaf.


**Dadansoddiad Anghenion Hyfforddiant** – yn ystod y flwyddyn cynhaliodd y pwyllgor ymarfer i ganfod a oedd unrhyw ofynion hyfforddi neu ddatblygu ar gyfer aelodau. Bydd yr wybodaeth yn cael ei hystyried yn ystod blwyddyn 2024/2025 a gwneir trefniadau i ddarparu hyfforddiant priodol. Rhoddir ystyriaeth hefyd i unrhyw gyfleoedd hyfforddi cenedlaethol y gellir eu darparu.

**Cylch Gorchwyl** – yn dilyn adolygiad o'r cylch gorchwyl ym mis Chwefror 2023 ystyriodd y pwyllgor y cylch gorchwyl diwygiedig yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2023 a'i gymeradwyo. Mae'r cylch gorchwyl yn seiliedig ar ganllawiau CIPFA a byddant yn cael eu hadolygu'n flynyddol.



# Mae blaenoriaethau’r pwyllgor yn 2024/25 yn

- Parhau i oruchwylio’r gwaith o baratoi’r Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2023/24 mewn ymgynghoriad ag Archwilio Cymru a cheisio sicrwydd bod gwersi wedi’u dysgu o flynyddoedd blaenorol.
- Ystyried a chynghori ar drefniadau rheolaeth ariannol sy’n cael eu hystyried yn barhaus i ddatblygu’r cynllun ariannol tymor canolig ymhellach.
- Canolbwyntio ar feysydd busnes allweddol, i gefnogi blaenoriaethau CHTh a’r PG, gan gynnwys:
    - Fframwaith llywodraethu corfforaethol diwygiedig.
    - Rheoli risg trwy adolygiad archwilio mewnol o'r fframwaith sicrwydd.
    - Archwilio mewnol, gan sicrhau gwerth am arian a'r budd mwyaf i'r heddlu.
    - Rheoli gwybodaeth drwy barhau i fonitro gweithrediad argymhellion Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth.
    - Polisi gwrth-dwyll diwygiedig.
    - Monitro gweithredu’r argymhellion o adolygiadau archwilio mewnol blaenorol.



MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG



# Manylion cyswllt

Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Blwch SP 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31
2PF 01267 226440
opcc@dyfed-powys.police.uk
www.dyfedpowys-pcc.org.uk
@schthdp

